LGBC4M/2002

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 20FED MAI AM 10.30AM YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Yn bresennol

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. Susan Smith (Cadeirydd)	Mr. Edward Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. John Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. Steve Halsall
Mr. Dennis Roberts (Aelod)	Mr. Clive Chapman
	Mr. David Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 19eg Mawrth 2002.

Cytunwyd arnynt ar ôl eu diwygio.

2. Materion yn codi

2.1 Siroedd a Gedwir

2.1.1 Cyflwynir adroddiad drafft i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf. **Nodwyd** y dyfarnwyd estyniad o wythnos i'r dyddiad ar gyfer derbyn sylwadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

2.1.2 **Cytunwyd** yn ddelfrydol, y dylid cwblhau proses gyfan yr arolwg hwn erbyn canol mis Rhagfyr 2002.

3. Cynllun Iaith Gymraeg - Adroddiad Blynyddol 2001/02.

3.1 **Cytunwyd** bod y cyfarfod yn **derbyn yr adroddiad.**

4. Adroddiad Cyllidebol Chwarterol - 4ydd Chwarter 2001/02.

4.1 **Derbyniwyd a nodwyd** adroddiad cyllidebol y chwarter olaf gan y cyfarfod.

5. Gwefan.

5.1 **Cytunwyd fod** y cyfarfod yn derbyn yr argymhellion canlynol:

i. Dylid trosglwyddo'r gwaith o gyflwyno gwefan y Comisiwn i ISP Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl 1af Gorffennaf 2002;

ii. Yn dilyn cwblhau i., dylid gwneud cais am gyfeiriad gwefan "Cymraeg" ychwanegol (URL), ac;

iii. Os ystyrir bod angen cynnal archwiliad o'r wefan, caiff yr archwiliad ei ohirio am o leiaf chwe mis ar ôl dechrau'r trefniadau cyflwyno newydd.

5.2 **Cytunwyd hefyd** y dylid cael gwared ar gynlluniau'r baneri ar dudalen gyntaf y wefan er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf ar ddylunio gwefannau.

6. Eitemau ar gyfer Agenda Cyfarfod Agored Blynyddol y Comisiwn

6.1 **Cytunodd y cyfarfod** y byddai'r eitemau ar agenda Cyfarfod Agored Blynyddol y Comisiwn yn cynnwys eitem ar "Berthnasedd y Siroedd a Gedwir" ac eitem ar y gwaith paratoadol sy'n mynd ymlaen gan LGBC(W) ar gyfer y 5ed arolwg Cyffredinol y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru. **Cytunwyd** y dylid gofyn am gymorth Arglwydd Raglaw Morgannwg Ganol wrth gyflwyno'r eitem ar y Siroedd a Gedwir, ac y dylid cysylltu â Syr Stephen Richards mewn perthynas â'r eitem Seneddol.

6.2 **Cytunodd y cyfarfod** yn dibynnu ar ganlyniad arolwg y Comisiwn o Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru, y dylid nodi eitem amodol ar yr agenda i roi gwybod am ei effaith ar waith LGBC(W).

7. Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol.

7.1 Derbyniodd y cyfarfod y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a nodwyd ei gynnwys.

8. Cod Ymarfer ar Fynediad y Cyhoedd i Wybodaeth.

8.1 Derbyniodd y cyfarfod God Ymarfer drafft y Comisiwn ar Fynediad y Cyhoedd i Wybodaeth. **Nodwyd** bod y ddogfen yn seiliedig ar God Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ddiwedd 2001.

8.2 Cynhyrchodd y Cynulliad ei ddogfen yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2002, a'i ymrwymiad i "Lywodraeth Agored". Rhaid gweithredu gofynion y Ddeddf erbyn 2005.

8.3 Cynhyrchodd yr Ysgrifenyddiaeth bapur drafft y Comisiwn yn unol â gofyniad y Cynulliad y dylai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ddilyn ei God Ymarfer lle bynnag y bo'n bosibl.

8.4 Nodwyd hefyd yn ogystal â'r Cod Ymarfer, ei bod yn ofynnol i gyrff fel y Comisiwn gynhyrchu Cynllun Cyhoeddiadau i helpu i hwyluso mynediad y cyhoedd i wybodaeth. Roedd yn ofynnol i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth erbyn mis Tachwedd 2002, a'u cyflwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth erbyn canol mis Medi 2002.

8.5 Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynhyrchu ei gynllun cyhoeddiadau drafft ei hun yn fuan. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiwn i fabwysiadu "llinell gorfforaethol" a oedd yn gyson â safbwynt y Cynulliad, yn unol â Chod Ymarfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

8.6 Mewn perthynas â Chod Ymarfer drafft y Comisiwn, tynnwyd sylw'r cyfarfod at y pwyntiau canlynol o fewn y papur:

i. O dan bolisi cyfredol y Comisiwn, cyhoeddir cofnodion yn ddwyieithog ar y wefan. **Cytunwyd** mewn perthynas â chofnodion a gynhyrchwyd cyn i'r Comisiwn fabwysiadu'r arfer hwn, pan y'u cyhoeddwyd yn uniaith Saesneg, pe derbyniwyd cais am set o un o'r cofnodion hynny, yna mai dim ond pe gwnaed cais am hynny gan y sawl a oedd yn ymholi y byddent yn cael eu cyfieithu. **Cytunwyd hefyd**, na fyddai unrhyw gofnodion o'r fath yn cynnwys unrhyw faterion personél cyfrinachol pe'u cynhwyswyd yn wreiddiol yn y cofnodion hynny.

ii. **Nodwyd** nad oedd gwefan y Comisiwn yn bodloni'r holl ofynion cenedlaethol a rhyngwladol. **Cytunwyd** y byddai gwaith yn parhau i ddatblygu'r wefan er mwyn cyflawni'r safonau hynny yn y dyfodol.

iii. Mewn perthynas â chofrestr wybodaeth, **cytunwyd** y byddai gwaith yn mynd ymlaen i benderfynu pa gyhoeddiadau, yn ogystal â'r amrywiaeth eang sydd eisoes wedi'i gynnwys ar y catalog cyhoeddiadau, y dylid eu hysbysebu yn y catalog.

iv. Gofynnwyd i'r cyfarfod ystyried adolygu amser ymateb y Comisiwn i ohebiaeth. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu amser ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ohebiaeth sef uchafswm o 15 diwrnod gwaith.

v. Roedd cod ymarfer y Cynulliad yn nodi canllawiau ar godi tâl am gynhyrchu gwybodaeth y tu hwnt i gost benodol, yn ei achos ef £500. Yn y gorffennol ni allai'r Comisiwn godi tâl am unrhyw un o'i wasanaethau. **Nodwyd**, yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol diweddaraf y Comisiwn y soniwyd am godi tâl er na chafwyd unrhyw newid o ran statws y Comisiwn fel Corff Ymgynghorol a Noddir gan y Cynulliad. **Cytunwyd** y dylid gofyn i'r Cynulliad am eglurhad o'r sefyllfa. Os oedd y sefyllfa wedi newid, **cytunwyd** y byddai costau cynhyrchu y tu hwnt i £250 yn swm mwy priodol wrth sefydlu proses codi tâl.

vi. O ran darparu gwybodaeth drwy "Lyfrgelloedd Cyswllt", gofynnwyd am gyngor gan y Cynulliad.

9. Unrhyw Fater Arall.

9.1 Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

9.1.1 **Nodwyd** y byddai cyfarfod nesaf y Comisiwn yn cael ei gynnal ar 9fed Gorffennaf 2002. Byddai'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod ym mis Medi yn cael ei gytuno yng nghyfarfod mis Gorffennaf. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn gynnal cyfarfod gyda'r nos ar 10fed Hydref 2002 sef y diwrnod cyn y bwriadwyd cynnal cyfarfod Blynyddol y Comisiwn.

9.2 Statws Cyfredol adroddiadau a gyflwynwyd gan y Comisiwn i'r Cynulliad

9.2.1 Adroddiadau Etholiadol

i. Roedd y Comisiwn wedi gweld gorchmynion drafft ar gyfer arolygon etholiadol Gwynedd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Tor-faen, Ceredigion a Sir Fynwy.

9.2.2 Arolygon Ffin

i. Ymddangosodd gorchmynion ar wefan y Llyfrfa ar gyfer yr holl arolygon a oedd heb eu cwblhau ac eithrio arolygon Llandudoch, Clunderwen a Ffordd Gyswllt Grangetown, er y cadarnhawyd yn ysgrifenedig i gynigion y Comisiwn mewn perthynas â'r arolygon hyn gael eu derbyn (yn amodol ar fân addasiadau ar gyfer Llandudoch a Chlunderwen).

9.2.3 Arolygon Cymunedol

i. Roedd y Comisiwn yn dal i aros am orchmynion ar ei argymhellion mewn perthynas â'i arolygon Cymunedol diweddar.